

Cyfarfod eithriadol o Gyngor Partneriaeth Cymru
10am – 12pm, 10 Ionawr 2019
Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion y cyfarfod

Mynychwyr

Aelodau

Julie James AC – Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Cadeirydd)
Hannah Blythyn AC – Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Mark Drakeford AC, Y Prif Weinidog
Jeremy Miles AC, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit
Y Cynghorydd Debbie Wilcox – Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac
Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cynghorydd Andrew Morgan – Llywydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Huw Thomas – Arweinydd Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Rob Stewart – Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd Mair Stephens – Aelod Etholedig o Gyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd John W Thomas – Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Linda Evans, Aelod Etholedig o Gyngor Sir Caerfyrddin
Y Gwir Anrh Alun Michael – Cynrychiolydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau
Y Cynghorydd Michael Cuddy – Cynrychiolydd Cyngorau Cymuned
Maria Battle – Cynrychiolydd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd
Leol
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru

Sylwedyddion

Chris Llewellyn, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ruth Marks, Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr, Un Llais Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Simon Brindle, Cyfarwyddwr, Strategaeth Brexit

Ysgrifenyddiaeth

Paula James

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn – Ceredigion
Y Cynghorydd Aaron Shotton – Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Ieuan Williams – Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Tudor Davies – Cynrychiolydd Awdurdodau Tân ac Achub
Adrian Crompton – Swyddfa Archwilio Cymru (Sylwedydd)
Peter Davies, Cadeirydd – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Sylwedydd)

Camau Gweithredu

- Dylid ystyried defnyddio ymgyrchoedd postio treth gyngor er mwyn i Llywodraeth Cymru gylochredeg negeseuon i ddinasyddion ynglŷn â'r porth Brexit ac unrhyw ffynonellau gwybodaeth perthnasol eraill.
 - Cam gweithredu – Timau Brexit a chyfathrebu
- Dylai Brexit fod yn eitem sefydlog ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu
 - Cam gweithredu – Ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth
- Llywodraeth Cymru i barhau i fynd i'r afael â'r cyfle i gyflwyno cais Cymru i gronfa wrth gefn y DU i gefnogi rhai o'r meysydd a nodwyd. Yr holl aelodau i rannu unrhyw wybodaeth neu hysbysrwydd ag aelodau wrth iddo ddod i'r fei.
 - Cam gweithredu – Llywodraeth Cymru a'r holl aelodau
- Llywodraeth Cymru i rannu'r gwaith yr oedd wedi'i wneud gyda'r Swyddfa Gartref ar y cynllun statws preswylwyr sefydlog
 - Cam gweithredu – Tîm Brexit, Llywodraeth Cymru

Eitem 1 – Croeso a chyflwyniadau

1. Gwnaeth y Cadeirydd, Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ddechrau'r cyfarfod drwy groesawu'r aelodau a diolch iddynt i gyd am fynychu'r cyfarfod eithriadol hwn o'r Cyngor Partneriaeth.
2. Gwnaeth y Cadeirydd amlinellu'r agenda a diben y cyfarfod, gan nodi nad oedd trafodaeth ar Brexit 'heb gytundeb' yr hyn roedd hi wedi gobeithio amdano ar gyfer ei chyfarfod cyntaf fel Cadeirydd y Cyngor Partneriaeth. Nododd y Cadeirydd ei bod yn edrych ymlaen at allu gweithio ar y cyd ar feysydd eraill mwy cadarnhaol yn y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r cyfarfod hwn fod yn sgwrs rhwng yr holl bartïon ac y byddem yn clywed oddi wrth y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a Reg Kilpatrick, ond ei fod yn bwysig iawn fod hon yn sgwrs yr oedd pawb yn cymryd rhan ynddi.
3. Yna gwnaeth y Cadeirydd gyflwyno'r Prif Weinidog i'r cyfarfod a'i wahodd i siarad am yr eitem gyntaf – Paratoi ar gyfer senario Brexit 'heb gytundeb'.

Eitem 2 – Paratoi ar gyfer senario Brexit 'heb gytundeb': Gosod y cyd-destun

4. Croesawodd y Prif Weinidog bawb i'r cyfarfod. Esboniodd y byddai'n amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi ar gyfer Brexit a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda Llywodraeth y DU ar Brexit a bod yn barod ar gyfer Brexit.
5. Nododd y Prif Weinidog fod y perygl o beidio â chael cytundeb wedi cynyddu ar ddechrau tymor Hydref 2018, ac wedi cynyddu ers hynny. O ganlyniad, er bod

Llywodraeth Cymru yn glir ei fod yn hanfodol osgoi gadael heb gytundeb, roedd camau gweithredu wedi bod ar waith drwy gydol yr hydref i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb. Roedd y 'bleidlais ystyrion' yn Senedd y DU yn mynd i ddiwydd ar 15 Ionawr ac roedd hi'n hynod o debygol bod y Llywodraeth yn mynd i golli'r bleidlais. Yng ngoleuni hyn, ac er ei fod yn dal yn glir nad yw gadael heb gytundeb yn ganlyniad derbyniol, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar fod mor barod â phosibl am gytundeb newydd.

6. Cadarnhaodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr holl bosibiliadau sy'n deillio o adael heb gytundeb ac yn ceisio lliniaru'r effeithiau. Fodd bynnag, pwysleisiodd beth bynnag a wnawn, ni fydd modd i ni osgoi effeithiau Brexit heb gytundeb. Mae'n bosibl y bydd effeithiau ar draws yr economi a fydd yn effeithio ar Gymru mewn meysydd megis treth incwm sy'n golygu y bydd gennym lai o arian i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.
7. Gwaeth y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar Brexit, gan gynnwys:
 - clustnodi amser ar lawr y Cynulliad i ymdrin â materion deddfwriaethol sy'n deillio o adael yr UE
 - clirio llawer o agenda fusnes y Llywodraeth er mwyn cael amser ar gyfer busnes Brexit 'heb gytundeb' yn y Cynulliad, gan gynnwys gwneud datganiad ar Brexit 'heb gytundeb' os bydd y Prif Weinidog yn colli'r bleidlais
 - Mae Gweinidogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill pan fo cyfleoedd yn dod i'r amlwg a thrwy gyfarfodydd rheolaidd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion. Bydd y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ym mis Ionawr.
 - ymgysylltu ar lefel y DU ar waith sifil wrth gefn
 - gweithio ar draws y sector cyhoeddus i rannu gwybodaeth a gwneud yn siŵr bod ffocws i ymdrechion a bod cyfanswm ein holl ymdrechion yn gallu cael mwy o effaith
 - dod o hyd i symiau cymedrol ychwanegol o arian i helpu'r sector gwirfoddol, Cydffederasiwn y GIG, CLILC, heddluoedd ac ati i baratoi am Brexit
 - achub ar yr holl gyfleoedd i rannu gwybodaeth am baratoadau angenrheidiol â rhanddeiliaid a phartneriaid
8. Gwnaeth y Prif Weinidog bwysleisio y bydd Brexit yn cael effaith sylweddol ar economi Cymru ac y byddwn ni'n wynebu problemau sylweddol o ran recriwtio, masnach a rhwystrau i fasnach ac ati. Yna gwnaeth y Prif Weinidog wahodd sylwadau neu gwestiynau.

Eitem 3 – Cyd-destun penodol Llywodraeth Leol

9. Gwnaeth y Cynghorydd Debbie Wilcox ddiolch i'r Prif Weinidog am ei arsylwadau. Nododd ei bod wedi cynrychioli llywodraeth leol mewn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddydd Llun ac roedd naws y cyfarfod hwnnw'n ddigalon iawn a phrin oedd y cwestiynau a ofynnwyd. Roedd llywodraeth leol wedi gofyn am fwy o arian oddi wrth Lywodraeth y DU oherwydd bod capasiti annigonol o fewn llywodraeth leol i ymateb i'r materion sy'n gysylltiedig â Brexit. Credai y byddai'r dinasoedd yn cael eu taro galetaf gan Brexit.
10. Cytunodd y Cynghorydd Andrew Morgan fod angen adnoddau ychwanegol a bod llywodraeth leol yn brwydro i ychwanegu gwaith Brexit at y gwaith beunyddiol. Credai y byddai pob awdurdod lleol yn elwa ar swyddog pwrpasol, cyfwerth ag amser llawn i gyflawni'r gwaith hwn. Credai y byddai £1 miliwn y flwyddyn am ddwy flynedd yn helpu i gefnogi pob un o'r 22 awdurdod lleol i ymateb. Nododd gyflenwadau bwyd fel maes y byddai angen iddynt ganolbwyntio arno, yn arbennig ar gyfer prydau ysgol. Roeddent yn edrych ar wydnwch y cyflenwad, yn arbennig ar gyfer cynhwysion crai a'r effaith drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan, nid y cynnyrch terfynol a gyflenwir i'r ysgolion yn unig. Nododd ei bod yn anodd barnu'r effaith bosibl tan i ni wybod pa fath o Brexit rydym yn mynd i'w gael.
11. Gwnaeth y Cynghorydd Morgan hefyd godi materion y cynllun statws preswylwyr sefydlog. Mae llywodraeth leol yn ceisio cyfrifo effaith hyn a'r potensial i awdurdodau lleol ariannu ceisiadau er mwyn ymdrin â phryderon staff. Credai y gallai hyn gael effaith sylweddol, er enghraifft ar feysydd gofal cymdeithasol. (Nododd y Cynghorydd Wilcox y byddai hyn yn debygol o effeithio ar 5000 o unigolion yng Nghasnewydd). Dywedodd y Cynghorydd Morgan y byddai awdurdodau lleol yn dymuno cyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod y costau ychwanegol hyn.
12. Nododd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu Pecyn Cymorth Paratoi, a ddatblygwyd gan Grant Thornton, a gofynnodd a oedd yr awdurdodau lleol yn ei weld yn ddefnyddiol?
13. Cadarnhaodd Tim Peppin, CLILC, fod llawer o awdurdodau lleol yn gweld y pecyn cymorth yn ddefnyddiol.
14. Dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas fod Cyngor Caerdydd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Brexit yn Llywodraeth y DU am fanylion pellach ond roedd yr ymateb wedi bod yn frysiog gyda gwybodaeth brin. Nododd fod prinder manylion yn cael eu darparu gan Lywodraeth y DU i lywodraeth leol ar Brexit. Cytunodd hefyd fod cynllun statws preswylwyr sefydlog yr UE yn ystyriaeth ar gyfer staff. Roedd Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ei bod yn disgwyl ariannu'r cynllun ar gyfer holl weithwyr y sector cyhoeddus yn yr Alban a gofynnodd a allai Llywodraeth Cymru wneud yr un peth. Nododd hefyd y byddai angen iddynt sefydlu canolfannau cynghori i'w dinasyddion (tuag 20,000 o breswylwyr yr UE, gan gynnwys hyd at 5000 o achosion cymhleth). Nododd y Cynghorydd Thomas mai disgwyliad y Swyddfa Gartref yw bod cynghorau'n darparu'r cyngor drwy

ganolfannau, ond gofynnodd o ble y byddai'r adnoddau yn dod i wneud hynny? Mae awydd i helpu dinasyddion, ond mae angen adnoddau i wneud hynny.

15. Gwnaeth y Cynghorydd Rob Stewart adleisio'r problemau am y cynllun preswylwyr sefydlog gan nodi y byddai'n effeithio ar tua 550 o wladolion yr UE yn ei awdurdod lleol ef. Credai, yng ngoleuni cymhlethdod ac amrywiaeth y gwasanaethau y mae llywodraeth leol yn eu darparu, ei bod yn anodd paratoi am bob senario. Roedd angen cymorth ar lywodraeth leol gyda chynllunio cydnerthedd a thalu costau cysylltiedig.
16. Credai'r Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i'r aelodau glywed sylwadau oddi wrth Jeremy Miles AC (y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit) a Reg Kilpatrick (Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru) ar yr adeg hon.

Eitem 4 – Paratoi a chynlluniau ymateb sifil wrth gefn

17. Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol adleisio pwyntiau'r Prif Weinidog am her senario Brexit heb gytundeb a'r angen i gynyddu'r paratoi er mwyn lliniaru'r niwed. Pwysleisiodd hefyd fod angen i ni ymddwyn yn bwrpasol ac yn rhagweithiol ond peidio â mynd i banig. Mantais allweddol y cyfarfod heddiw yw gallu siarad yn agored a dod â syniadau gerbron. Amlinellodd bedwar categori bras o weithgarwch:
 - Cynlluniau sifil wrth gefn
 - Ymgysylltu ag amrediad o brosiectau ar lefel y DU – mae her o ran tryloywder gwybodaeth ar draws y rhain
 - Materion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru – materion gofodol, tlodi a sectorau economaidd
 - deddfwriaeth – gweithio ar y llyfr statud i wneud yn siŵr ar y diwrnod cyntaf y gallwn barhau i gyflawni'r hyn mae angen ei wneud - gan nodi ein bod hanner ffordd drwy'r broses hon ac y byddwn yn barod mewn pryd
18. Nododd y Cwnsler Cyffredinol mai un o fanteision allweddol y cyfarfod hwn oedd siarad yn agored. I fynd i'r afael â'r her hon bydd angen creadigrwydd, mewnwelediad a rhannu profiadau.
19. Diolchodd Reg Kilpatrick i'r cadeirydd ac aeth yn ei flaen i gyflwyno materion yn ymwneud â chynlluniau sifil wrth gefn. Cytunodd fod heriau sylweddol yn sgil prinder gwybodaeth oddi wrth Lywodraeth y DU ac felly prinder gwybodaeth am beth i gynllunio ar ei gyfer. Fodd bynnag, credai fod gennym set dda o fframweithiau sifil wrth gefn sydd wedi'u profi sy'n gallu helpu i ddelio ag unrhyw faterion.
20. Nododd Reg, fodd bynnag, fod ymateb cynlluniau sifil wrth gefn yn dod i rym ar ddiwedd y daith. Ni ddylai gymryd lle gweithgarwch paratoi ac ni ddylai gael ei weld fel y prif ymateb i faterion yn ymwneud â Brexit. Nododd fod llawer o waith paratoi ar gyfer busnes fel arfer a'r normal newydd ar ôl Brexit. Dylai ymateb

cynllun sifil wrth gefn ond fod ei angen os yw hyn yn methu. Diolchodd i'r CLILC am eu hymdrechion hyd yma ar hyn ac ar ddod ag awdurdodau lleol ynghyd i ymdrin â materion Brexit.

21. Gwnaeth Reg hysbysu'r aelodau ei fod wedi gofyn i'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gynnal dadansoddiad risg ar gyfer eu hardaloedd. Roeddent wedi cyflenwi dadansoddiad risg o ansawdd uchel sy'n gallu llywio cynllunio lleol. Mae eu dadansoddiad wedi cael ei gyfuno ag asesiad cenedlaethol, a ddylai lywio gwaith ar lefel Cymru gyfan. Dylai arweinwyr awdurdodau lleol ofyn i'w Cydlynwyr Cynllunio Brys i weld y rhain.
22. Ar wahân i hyn, mae Panel Cyngori Pontio yr UE ar gyfer llywodraeth leol wedi'i sefydlu, a fyddai'n cyfarfod ymhen pythefnos.
23. Bydd angen i ymateb Llywodraeth Cymru fod yn sylweddol yn sgil gadael heb gytundeb. Bydd angen i bartneriaid wneud y gwaith angenrheidiol yn gyflym iawn ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu siarad yn fanwl am hyn â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yr wythnos nesaf.
24. Tynnwyd sylw at dri maes allweddol i wella dealltwriaeth:
 - mae angen i ni gyd fod yn ymwybodol o waith cynlluniau sifil wrth gefn a beth mae ei angen – a yw pob awdurdod lleol mewn sefyllfa dda, ac os nad yw, sut mae mynd i'r afael â hyn?
 - materion a chymhlethdodau unigol cadwyni cyflenwi
 - yr angen i osgoi cymhlethdod ychwanegol – mae angen i ni ddefnyddio fforymau sy'n bodoli eisoes ac ail-flaenoriaethu gwaith i fynd i'r afael â Brexit. Rydym i gyd yn gweithio o fewn cyfyngiadau ariannol ac yn wynebu her ymdopi o fewn hynny.
25. Nododd y Cadeirydd, ar faterion strwythurau, er bod gan Lywodraeth Cymru Banel Cyngori, mae angen adborth ar beth yw'r strwythurau gorau i hwyluso llif gwybodaeth.
26. Croesawodd Alun Michael y cyfarfod a'r trafodaethau. Nododd nad oedd yn mynd i wneud sylw ar faterion gweithredol yr heddlu am ei fod yn hyderus y bydd yr heddlu'n gwneud beth mae angen ei wneud yn ddiuedd i ymateb i effaith Brexit. Nododd hefyd fod y berthynas rhwng heddluoedd Cymru, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru yn dda iawn. Y mater pwysig iddo ef oedd bod yr UE yn bwysig ar gyfer heddwch a diogelwch. Credai na ddylem ganolbwyntio ar ddigwyddiad byrdymor Brexit ond yr hirdymor y mae'n anos cynllunio amdano. Ni allwn fynd i'r afael â phroblemau tan i ni wybod beth ydynt.
27. Credai Alun Michael y byddai'r newid mewn mynediad at Europol yn effeithio ar faterion plismona ymarferol ac ni fydd heddluoedd y DU bellach yn cael eu cynrychioli yn y trafodaethau hyn. Ni fydd y DU bellach yn rhan o'r rhwydwaith ar gyfer Gwarant Arestio Ewropeaidd. Achubodd ar y cyfle i ofyn bod yr heddluoedd

yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar lefel genedlaethol a lleol a chroesawodd y safbwynt y dylem ddefnyddio strwythurau sy'n bodoli eisoes ac nid creu rhai newydd.

28. Nododd hefyd fod angen i ni sicrhau bod dinasyddion yn parhau i weld dinasyddion yr UE fel dinasyddion Cymru a bod Cymru'n cynnal y cysyniad o Gymru agored a chroesawgar. Mae angen i ni gynnal cydlyniant cymunedol ac mae angen i'n cynlluniau ac ymatebion fod ar gyfer yr hirdymor.
29. Nododd y Cyngorydd Mike Cuddy a oedd yn cynrychioli Un Llais Cymru efallai na fydd y sector Cyngorau Tref a Chymuned yn gallu cyfrannu ar unwaith ond dylent gael eu hystyried o ran sut y gallant gyfrannu yn yr hirdymor. Byddai'r sector yn croesawu sedd wrth y bwrdd o'r cychwyn. Mae'r sector Cyngorau Tref a Chymuned yn cynrychioli rhwydwaith cryf o gyngorau ledled Cymru a allai gyfrannu.
30. Croesawodd Ruth Marks y drafodaeth a gwnaeth gydnabod cymorth cronfa bontio'r UE i helpu'r trydydd sector i baratoi am Brexit. Manteisiodd ar y cyfle i wneud nifer o bwytiau am wirfoddolwyr, y sector gwirfoddol ac ymgysylltu â'r sector yng Nghymru.
- Ar ochr ymarferol, fel y nododd y Cyngorydd Wilcox, mae dinasyddion angen cyngor ynglŷn â'u hawliau ond mae asiantaethau gwirfoddol a gwasanaethau cynghori dinasyddion dan straen ac mae ganddynt bryderon ynglŷn â'r cyngor i'w roi.
 - Mae effaith o ran gofal cymdeithasol ar gyfer elusennau gwirfoddol ac a gontractiwyd sy'n darparu cyngor 24/7 i'r rheini a allai fod fwyaf agored i niwed
 - Mae Cyngorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru yn gweithio gyda chynlluniau sifil wrth gefn. Mae'n debyg bod Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr yn gwneud rhywfaint o waith ar gynlluniau wrth gefn.
 - O ran y ffyrdd gorau o ymgysylltu, mae gan WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol rwydweithiau a fframweithiau lleol sylweddol a all gael eu defnyddio, heb anghofio'r elusennau arbenigol sy'n gweithio'n galed i barhau ar ôl mis Mawrth.
31. Gwnaeth Ruth Marks nodi pwysigrwydd parhau i ymgorffori'r Cynllun Trydydd Sector a'i ffyrdd o weithio hefyd.
32. Gwnaeth Maria Battle groesawu'r cyfle i fynychu'r cyfarfod hefyd. Dywedodd wrth yr aelodau fod y gwasanaeth iechyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i nodi ystyriaethau ond mae cynllunio i ymdrin â'r rhain yn dra gwahanol. Credai fod y gwasanaeth iechyd yn rhannu'r un ystyriaethau ag sydd wedi'u mynegi eisoes, yn arbennig yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys rhyngddibyniaethau rhwng gofal cymdeithasol a gweithlu'r GIG. Bydd recriwtio o'r UE yn y dyfodol yn broblem, mae prinder ar draws yr holl fyrdau iechyd nawr. Mae Cydffederasiwn y GIG yn cynorthwyo pobl am statws ac mae cyngor ar gael

drwy wasanaethau cyngori ond mae'n bwysig bod y GIG yn parhau i roi'r neges i wladolion yr UE o fewn y gweithlu, "rydym yn dal i fod eich eisiau a byddwn ni'n eich helpu". Roedd Maria'n gefnogol o'r syniad o gael staff pwrpasol i ganolbwyntio ar Brexit. Awgrymodd hefyd y gallai fod lle i sicrhau cyngor arbenigol mewn partneriaeth â chwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ar gyfer gwladolion yr UE sy'n chwilio am statws preswlydd sefydlog.

33. Nododd hefyd broblemau cadwyni cyflenwi, y mae'r gwasanaethau iechyd yn eu rhannu hefyd, a gwelai gwerth mewn cael sianeli cyfathrebu a allai helpu i rannu syniadau, yn arbennig gan ddefnyddio strwythurau sy'n bodoli eisoes. Nododd hefyd fod gan y bwrdd iechyd lawer o brofiad mewn gwaith cynllunio wrth gefn ond maent yn edrych o'r newydd ar eu cynlluniau.
34. Diolchodd y Prif Weinidog i bawb am eu cyfraniadau, gan nodi ei fod yn ddiddorol clywed safbwyntiau o bob sector. Gwnaeth y Prif Weinidog gynnig pum sylw cyflym ar y drafodaeth:
- Cydnabu fod materion y gadwyn gyflenwi yn bwysig iawn ar draws yr holl wasanaethau, yn arbennig y gwasanaethau hynny sy'n cynnwys y gadwyn fwyd ar gyfer dinasyddion sy'n agored i niwed. Roedd Llywodraeth y DU wedi nodi nad ydynt yn disgwyl unrhyw ddiffyg bwyd mewn siopau ond bydd rhai bwydydd prin. Mae angen i ni weithio ar y cyd i osgoi prynu mewn panig gan fod hyn yn fwy tebygol o ysgogi diffyg. Gwaeth y Prif Weinidog nodi y gallai gwybodaeth y cynghorau cymuned am y dinasyddion fwyaf agored i niwed fod yn ddefnyddiol iawn.
 - O ran cynlluniau sifil wrth gefn, roedd yn rhaid i ni gydnabod bod gwahaniaeth rhwng Brexit a materion eraill megis eira neu achosion o'r fflw oherwydd bod Brexit yn fater tymor hwy sydd angen misoedd o weithgarwch. Mae iaith Llywodraeth y DU yn dechrau adlewyrchu bod pentyrru stociau 'wrth gefn' bellach yn glustog ar gyfer y tymor hwy, nid yn ateb cyflym tymor byr.
 - O ran y gweithlu, yn bendant mae gennym heriau cyffredin. Yn ddiweddar roedd Llywodraeth Cymru wedi symud 25 uwch aelod o staff o'u swyddi beunyddiol i rolau cynllunio ar gyfer Brexit – bu'n rhaid i ni ail-flaenoriaethu er mwyn ymdrin â'r mater hwn. Mae Llywodraeth y DU wedi crybwyll y syniad o restr galwedigaethau prin ar gyfer Cymru. Mae gennym achos cryf i ddadlau dros hyn er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n cyflawni dros Gymru. Mae angen y rhestr arnom i gefnogi'r gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol yn arbennig. Mae angen i ni fod yn ofalus wrth ystyried talu am y cynllun statws preswylwyr sefydlog. Efallai na fydd Swyddfa Gartref y DU yn caniatáu i'r sector cyhoeddus wneud hyn – maent wedi awgrymu o'r blaen nad ydynt yn fodlon i Lywodraeth Cymru wneud hyn yn uniongyrchol. Gallai fod angen i'r rheini sy'n dymuno gwneud hynny sefydlu dulliau ad-dalu cymhleth i ymgymryd â hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith ar hyn a allai gael ei rannu.
 - O ran gwasanaethau cyngori, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyngori ychwanegol ond bydd angen bod yn sicr

ar bennu'r ffiniau rhwng cyngor cyffredinol a chyngor arbenigol. Mae'r gyfraith ar gyfer y ddau yn wahanol iawn ac yn gymhleth, ond rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r Swyddfa Gartref am hyn.

- O ran cyllid yn gyffredinol, mae Trysorlys y DU wedi cadarnhau bod cronfa wrth gefn a bydd Llywodraeth Cymru yn gallu hawlio ohoni ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw brosesau neu reolau er mwyn galluogi hyn. Os ydym yn cwmpo allan o'r UE ym mis Mawrth mae Llywodraeth y DU eisoes wedi dweud y bydd cyllideb frys.

35. Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Morgan a oedd yn bosibl i wybodaeth sy'n dod o Lywodraeth Cymru i feysydd megis y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gael ei chopio i Brif Weithredwyr ac arweinwyr awdurdodau lleol. Gofynnodd hefyd beth yw cynllun cyfathrebu Llywodraeth Cymru a sut y gallai llywodraeth leol helpu i siapio a dylanwadu ar hwn? Nododd y Cynghorydd Morgan fod angen i ni ystyried materion prynu mewn panig, camwybodaeth ac unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch cyhoeddus. Roedd y negeseuon yn bwysig i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau canfyddedig a allai yrru ymddygiadau dieisiau.

36. Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol hysbysu'r aelodau bod cynllun cyfathrebu ar waith ar gyfer Brexit a bod Llywodraeth Cymru yn datblygu un porth gwe ar gyfer yr holl gyngor yn ymwneud â Brexit. Roedd yn bwysig ein bod yn darparu ffynhonnell cyngor dibynadwy a chadarn a bod negeseuon yn gallu cael eu deall yn hawdd. Nododd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol fel sefydliadau mawr gyda sianeli cyfathrebu sylweddol â dinasyddion.

37. Gwnaeth Reg Kilpatrick hysbysu'r aelodau y bydd y fframwaith ymateb cynllun sifil wrth gefn ar waith o ganol mis Chwefror ac roedd ganddo ddi-ddordeb mewn clywed safbwyntiau'r aelodau ynglŷn â sut mae rhannu negeseuon a chyngor cyffredin cyn i'r strwythur hwnnw fod ar waith. Bydd cyfathrebu ac effaith cyfryngau cymdeithasol yn bwysig.

38. Gwnaeth Ruth Marks bwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chymau gweithredu cyffredin. Nododd fod rhai partneriaethau yn cynnwys y sector preifat i gwmpasu agweddau logisteg a storio. O ran dinasyddion sy'n agored i niwed, gallai fod cyfle i weithio gyda darparwyr cyfleustodau sydd â chofrestrï o gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Byddai'n ddiddorol gweld a yw'r darparwyr hynny yn yr un man â ni a sut y maent yn delio ag ef.

39. Croesawodd Chris Llewellyn y negeseuon am gyfathrebu a chynllunio roedd y Cwnsler Cyffredinol yn eu rhoi ac adleisiodd y safbwynt bod angen i ni ddefnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes lle bo'n bosibl. Credai fod llawer y gall llywodraeth leol ei wneud ar lefel ymarferol os oes angen.

40. Credai Martin Mansfield y byddai'r gweithlu yn gallu cyflawni ar gyfer Brexit ond bod rhaid i ni gofio bod effaith ar y gweithlu hefyd. Byddai effaith ar unwaith ar ddiwydiant Cymru ac ar y sector cyhoeddus o ran delio â dileu swyddi torfol yn

economi Cymru. Mae'r effaith yn debygol o fod ar yr unigolion hynny sy'n llai symudol yn y gweithlu. Byddai'r effaith fwyaf ar y bobl hynny sy'n gallu ymdopi â hi'n llai – byddai dileu swyddi'n effeithio'n bennaf ar yr 21 y cant o weithwyr heb gymwysterau.

41. Nid oedd Martin yn credu y byddem yn gallu defnyddio ymatebion tymor byr tebyg (er enghraifft ProAct) a gafodd eu defnyddio o'r blaen a byddai angen ymateb tymor hwy i ddelio â dirywiad economaidd hirdymor iawn.
42. Credai fod angen i ni ddarparu dull gweithredu partneriaeth gymdeithasol wirioneddol, yn lleol ac yn rhanbarthol, i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau sydd o'n blaenau a bod angen i hyn fod yn fwy cydgysylltiedig a chyson ledled Cymru.
43. Nododd fod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar sail lawer gwell ar hyn o bryd, ond nododd nad oes gennym yr un strwythur ar gyfer y trydydd sector. Mae'n bwysig peidio â sefydlu cyrff newydd ond gwneud i strwythurau sy'n bodoli eisoes weithio'n well. Credai Martin y dylai Cyngor Partneriaeth y Gweithlu fod ar sail statudol, ond ni all aros am hynny. Mae cyflawni ar faterion y sector cyhoeddus a'r ymateb ar faterion y sector preifat yn rhy bwysig i'w trin yn dameidiog.
44. Nododd hefyd fod partneriaeth a deialog gymdeithasol wedi'u hymgorffori yng nghytuniadau'r UE, ac roedd yn dymuno i hyn gael ei ailosod yng Nghymru yn sgil Brexit. Roedd arferion cydnabyddedig a chytûn ar ymgynghori / ymgysylltu â'r sector cymdeithasol yn barod a dylai'r rhain gael eu defnyddio.
45. Croesawodd y Cadeirydd y sylwadau a chytunodd fod angen i'n gweithlu gael ei hysbysu fel y gallant gefnogi lledaenu gwybodaeth gyson a chyfredol. Byddai angen i agenda Cyngor Partneriaeth y Gweithlu adlewyrchu Brexit.
46. Diolchodd Owain Wyn i'r cadeirydd am y gwahoddiad i'r cyfarfod a'r cyfle i fynychu. Credai fod angen ystyried yr effaith ar ardaloedd gwledig, er enghraifft lle bo Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gweithio. Byddai disgwyl allforio tua 70 y cant o oen y gwanwyn eleni i'r UE. Roedd cwestiwn ynglŷn â pha effaith fyddai Brexit yn ei chael ar hyn a phe bai effaith ar yr economi wledig ehangach beth fyddai'r effaith ehangach ar ein tirwedd. Byddai effaith hefyd ar dwristiaeth wledig o ganlyniad i broblemau yn gysylltiedig â gweithwyr yr UE felly byddai cyfleoedd i gyfrannu at y drafodaeth ac atebion arfaethedig yn cael eu croesawu. Roedd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn chwarae llai o rôl mewn cyflenwi gwasanaethau na llywodraeth leol ac maent yn ddibynnol iawn ar gyllid allanol. Roedd ganddo ddiddordeb mewn materion tymor hwy o ran cael mynediad at lifoedd cyllid megis 'LIFE'.
47. Nododd y Cynghorydd Rob Stewart fod angen strategaeth cyfryngau cymdeithasol gref i fynd i'r afael â chamwybodaeth a cheisiadau bwriadol i darfu. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:
 - Roedd cyfeiriad wedi'i wneud at ddiweddarau deddfwriaeth i adlewyrchu byd heb yr UE, byddai'n ddefnyddiol deall pa mor gyflym fyddai hyn ar

waith a sut y byddai'r newidiadau yn cael eu cyfathrebu. Mae angen amser ar awdurdodau lleol ac eraill i ddeall a gweithredu ar unrhyw ddeddfwriaeth newydd, gan gynnwys amser i sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi i fusnesau

- Mae angen i ni gydnabod breuder y farchnad gofal domestig a'r effaith bosibl ar y busnesau a'r gwasanaethau hynny maent yn eu darparu i'n dinasyddion. Nid oes gan awdurdodau lleol y gallu i gamu i'r adwy os bydd y busnesau hyn yn methu
- Mae angen i ni ystyried cynllunio senarios nid ar gyfer Brexit yn unig oherwydd efallai na ddaw Brexit ar ei ben ei hun – er enghraifft Brexit a thywydd garw

48. Mynegodd y Cyngorydd Linda Evans bryderon am sut y gallai awdurdodau lleol ymdrin ag ofn a phryder posibl ymhlith eu dinasyddion. Credai fod angen system arnom i sicrhau cysondeb negeseuon oddi wrth yr holl gyrff cyhoeddus. Mae angen i ni gydnabod yr effeithiau posibl ar eraill, megis teuluoedd yn gwario arian nad oes ganddynt; ar yr heddlu ac ar agweddau cymdeithasol newidiol pobl.

49. Cadarnhaodd y Cadeirydd bwysigrwydd negeseuon cyson oddi wrth yr holl wasanaethau cyhoeddus.

50. Credai'r Cwnsler Cyffredinol y gallai porth gwe Llywodraeth Cymru ddarparu ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth ond bod angen i ni ystyried sut rydym yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

51. Gofynnodd y Cyngorydd Andrew Morgan a oedd awdurdodau lleol yn cael eu cydlynu ledled Cymru drwy swyddogion cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol ac a oedd unrhyw werth mewn negeseuon dyddiol allweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru hyd yn oed os oedd hyn yn neges dim newid yn unig? Pwysleisiodd hefyd yr angen i ystyried y sawl nad ydynt yn ymgysylltu'n ddigidol. Gofynnodd hefyd a allai fod cyfle i gynnwys taflenni mewn pethau fel hysbysiadau treth gyngor a oedd ar y gweill i fynd allan ddiwedd mis Chwefror – er iddo nodi y byddai'r amseru yn dynn ac y byddai angen i rywbeth gael ei ddarparu'n gyflym ond gallai fod yn neges glir syml ynglŷn â ffynonellau gwybodaeth. Nododd hefyd y byddai unrhyw borth yn gorfod bod yn fyw a chael ei gadw'n gyfredol.

52. Cytunodd y Cadeirydd a'r aelodau y byddai hwn yn syniad ardderchog i fynd ar ei drywydd.

53. Nododd Reg fod Llywodraeth Cymru eisoes wrthi'n cynllunio cyfathrebu drwy rwydwaith cyfathrebu Cymru ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo ond croesawodd yr awgrym ar y postiad treth gyngor a nododd yr angen i gadarnhau gyda llywodraeth leol cyn gynted â phosibl pe bai Llywodraeth Cymru yn dymuno defnyddio'r cyfle hwn.

54. Credai Alun Michael y dylem weithio gyda'r cyfryngau yng Nghymru hefyd i helpu i ledaenu neges gyson ynglŷn â lle y gall dinasyddion ddod o hyd i fwy o wybodaeth a chyngor, a sut y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn ymateb mewn partneriaeth mewn ffordd sy'n unigryw i Gymru.
55. Roedd Maria Battle yn dymuno i'r grŵp gydnabod y gallai fod ystyriaethau gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru a chroesawodd y syniad o un porth gwe pe bai'n gallu trafod iechyd hefyd.
56. Roedd y Cynghorydd Mair Stephens yn dymuno sicrhau ein bod yn gallu delio ag ansicrwydd a gwneud yn siŵr ein bod yn ennyn cefnogaeth pobl o ran sut rydym yn mynd i'r afael â materion Brexit. Credai hefyd fod angen i ni edrych ar yr hirdymor gan gynnwys er enghraifft cronfa ffyniant a rennir a sut y gallai hyn helpu i ymdrin â'r dyfodol.
57. Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ar y dyddiadau cau a gwnaeth y Cynghorydd Morgan gadarnhau y bydd llythyrau'n cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Chwefror felly roedd yn hanfodol bod timau cyfathrebu, timau cyfryngau cymdeithasol a thimau treth gyngor yn cydgysylltu ar frys. Awgrymodd un ochr o A4/A5 i dynnu sylw at barth gwe ac unrhyw negeseuon eraill ynglŷn â ble i ddod o hyd i gyngor neu wybodaeth.
58. Gwnaeth y Cadeirydd gloi'r cyfarfod drwy ddiolch i bawb am fynychu ac am eu cyfraniadau a'r cyfle i archwilio syniadau a datblygu'r sianeli cyfathrebu mae mawr eu hangen er mwyn cefnogi Cymru gyfan i baratoi. Nododd ei fod yn debygol y bydd angen cynnig oddi wrth Gymru i gronfa wrth gefn y DU i gefnogi rhai o'r meysydd a nodwyd heddiw. Gofynnodd i'r aelodau sicrhau eu bod yn rhannu unrhyw wybodaeth neu hysbysrwydd ag aelodau wrth iddo godi.